Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## 2022-2026

# Cynnwys


| | | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| | ***Cefndir a Chyd-destun Cyfredol*** | |
| **1.0** | **Rhagair** | 3 |
| **2.0** | **Cyflwyniad** | 4 |
| 2.1 | Pwrpas y Strategaeth | 4 |
| 2.2 | Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi | 4 |
| 2.3 | Gweledigaeth ac Egwyddorion | 8 |
| **3.0** | **Asesiad Anghenion** | 8 |
| 3.1 | Proses Asesu Anghenion | 8 |
| 3.2 | Canfyddiadau Allweddol | 8 |
| 3.3 | Casgliad | 12 |
| **4.0** | **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** | 13 |
| 4.1 | Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy | 13 |
| 4.2 | Adborth Rhanddeiliaid | 14 |
| | ***Cyfeiriad Teithio ar gyfer Gwasanaethau*** | |
| **5.0** | **Blaenoriaethau Strategol** | 18 |
| **6.0** | **Asesiadau Effaith** | 22 |
| 6.1 | Y Broses Asesu Effaith | 22 |
| 6.2 | Canfyddiadau Allweddol | 22 |
| **7.0** | **Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth** | 23 |
| 7.1 | Gweithio gyda Phartneriaid | 23 |
| 7.2 | Ffynonellau ariannu | 23 |
| 7.3 | Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso | 24 |
| | **Atodiad A – Cynllun Gweithredu** | |
| | **Atodiad B – Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** | |

## 1.0 Rhagair

Mae’n bleser gennym gyflwyno Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2022-2026. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Cyngor, ein hamcanion a'r hyn yr ydym ni, ynghyd â'n partneriaid, yn bwriadu ei wneud dros y pedair blynedd nesaf, i fynd i'r afael â digartrefedd ar draws y fwrdeistref sirol.

Ers cyhoeddi ein strategaeth ddigartrefedd ddiwethaf, rydym wedi datblygu a darparu gwasanaethau sydd wedi helpu i atal a lleddfu digartrefedd miloedd o aelwydydd yn llwyddiannus, gan gynnwys diogelu aelwydydd bregus pan oedd pandemig COVID-19 ar ei anterth.

Mae ein strategaeth yn cydnabod bod ein gwasanaethau'n wynebu heriau sylweddol, gan gynnwys effaith pandemig Covid 19. Yn benodol, rydym wedi gweld cynnydd esbonyddol yn nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn mynd i lety dros dro.

Wrth i bwysau uniongyrchol y pandemig gilio, mae ein cymunedau lleol bellach yn wynebu argyfwng costau byw, sy'n effeithio ar bob rhan o gymdeithas. Gydag anghenion aelwydydd yn dod yn fwy cymhleth ac angen sylw brys, mae'r galw am dai fforddiadwy a gwasanaethau cymorth yn ddigynsail. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid a gwasanaethau'r trydydd sector i sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog, fydd ddim yn cael ei ailadrodd.

Ni fedrir gorbwysleisio maint yr her sydd o'n blaenau. Fodd bynnag, gyda'r ymrwymiad parhaus i'n blaenoriaethau strategol a chyda datblygiad ymagwedd newydd tuag at ddigartrefedd, sef Ailgartrefu Cyflym, rydym yn gobeithio gwneud newid gwirioneddol yn ein cymuned.



**Y Cynghorydd Rhys Goode**

**Aelod Cabinet - Tai, Cynllunio ac Adfywio**

## 2.0 Cyflwyniad

### 2.1 Pwrpas y Strategaeth

Mae'r strategaeth hon yn nodi cyfeiriad strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai ar gyfer 2022-2026. Mae'n cwmpasu'r gofynion strategol fel y'u nodir yng Nghanllawiau Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru a'r gofynion statudol ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu hanner ffordd drwodd, ar ôl 2 flynedd.

Mae'r strategaeth pedair blynedd hon yn disodli'r 'Strategaeth i Drechu Digartrefedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2022'. Mae'n nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid, wrth ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai eraill. Datblygwyd y blaenoriaethau hyn yn dilyn adolygiad sylweddol o wasanaethau digartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai, a'i gonglfaen oedd asesiad cynhwysfawr o anghenion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Bydd cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog, fydd ddim yn cael ei ailadrodd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i atal digartrefedd. Mae'n cefnogi'r uchelgeisiau ar gyfer newid trosiannol i ddull o ailgartrefu cyflym, fel y nodir yng Nghynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fodloni gofynion cyflwyno wrth i ni symud drwy bandemig Covid 19.

Mae cynllun gweithredu a Chynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cefnogi cyflawniad y blaenoriaethau strategol a bennir.

### 2.2 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

Er bod y strategaeth hon yn gosod un weledigaeth strategol ar gyfer digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai, mae'n bwysig ei bod yn cael ei hystyried fel rhan o gyd-destun cenedlaethol a lleol ehangach.

Bydd datblygu a chyflawni'r strategaeth hon yn cyfrannu at y ddeddfwriaeth a'r polisïau cenedlaethol canlynol:

Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal yng Nghymru

Mae'r Fframwaith yn helpu sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc ar eu taith tuag at adael gofal. Mae'n nodi pum cam y dylai sefydliadau eu hystyried, a pha ymadawyr gofal ddylai symud ymlaen tuag at fyw'n annibynnol.

Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026

Mae'r Cynllun Gweithredu yn manylu ar y gwaith y mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ei wneud i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn tynnu ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a gwaith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (HAG) arbenigol. Ymgysylltodd yr HAG yn helaeth ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys pobl sydd wedi cael profiadau personol o ddigartrefedd.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf hon yn gwarchod pobl rhag gwahaniaethu yn gyfreithiol ac yn nodi sut mae angen i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, ystyried gwahaniaethu, anghenion pobl sydd dan anfantais neu'r rhai sy'n dioddef anghydraddoldeb wrth lunio polisïau, darparu gwasanaethau ac fel rhan o unrhyw waith o ddydd i ddydd.

Deddf Tai (Cymru) 2014 a newidiadau posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud ag 'angen blaenoriaethol'

Diwygiodd y Ddeddf hon gyfraith digartrefedd a chryfhau'r ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i atal digartrefedd. Mae'r Grant Cymorth Tai yn cysylltu â Rhan 2 o'r Ddeddf gan ei fod yn ariannu darpariaethau sydd â'r nod o atal digartrefedd a/neu gefnogi'r rhai sy'n ddigartref.

Ethos y ddeddfwriaeth yw atal, ond mae atal gwirioneddol yn dechrau'n gynharach o lawer na'r 56 diwrnod a nodir yn y ddeddfwriaeth. Dylid ystyried y ddeddfwriaeth digartrefedd fel y rhwyd ddiogelwch pan fydd yr holl gamau ataliol eraill wedi methu.

Canllawiau Ymarfer y Grant Cymorth Tai

Mae'r Grant Cymorth Tai (HSG) yn gyfuniad o dri grant, sef -
Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

Mae'r HSG yn grant ymyrraeth gynnar sydd wedi'i gynllunio i gefnogi gweithgaredd sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa dai neu sy'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'r pwyslais ar weithio gyda'n gilydd i atal digartrefedd a lle na ellir ei atal rhag digwydd, sicrhau ei fod yn rhywbeth prin, byrhoedlog, ac na fydd yn cael ei ailadrodd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni fynd i'r afael ag achos sylfaenol digartrefedd a gweithio i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.

Mae'n cefnogi pobl fregus i fynd i'r afael â'r problemau lluosog weithiau sy'n eu hwynebu, megis dyled, diweithdra, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a materion iechyd meddwl.

Mae'r HSG yn ffurfio un strategaeth sydd wedi'i chostio ar lefel leol ac yn sicrhau continwwm o wasanaethau i fynd i'r afael ag angen lleol yn y modd mwyaf effeithiol. Tra bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu ar lefel leol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu rhaglenni cenedlaethol i ategu hynny.

Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog

Mae'r Llwybr Tai hwn yn ymateb i un o brif bryderon personél sydd wedi gwasanaethu ac sy'n gadael y Lluoedd Arfog: dod o hyd i lety addas a gwybod ble i ddod o hyd i help

Mae'n sicrhau bod ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog a Deddf Tai (Cymru) 2014 ac yn benodol, Rhan 2 sy'n mynd i'r

afael â'r dyletswyddau sydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau digartrefedd ataliol, a hefyd fframweithiau perthnasol eraill ac arfer da.

I gydnabod eu gwasanaeth i'w gwlad, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai pob cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog gael help, os oes angen, i ddod o hyd i lety addas, p'un ai'n syth ar ôl cael gadael neu'n hwyrach mewn bywyd.

Llwybr cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion yn yr ystâd ddiogel yng Nghymru

Mae'r Llwybr Cenedlaethol wedi'i gynllunio i gefnogi Awdurdodau Lleol, Timau Troseddau Ieuenctid a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau i bobl sydd am adael yr ystâd ddiogel. Mae'r Llwybr yn cynnig cyfle sylweddol i helpu unigolion i osgoi digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Nod y Ddeddf hon yw symleiddio'r broses o rentu cartref yng Nghymru a rhoi mwy o wybodaeth i bartïon am eu hawliau a'u rhwymedigaethau, gan roi mwy o sicrwydd i denantiaid yn eu tenantiaethau.

Bydd y darn hwn o ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar nifer yr aelwydydd sy'n cael mynediad at wasanaethau digartrefedd oherwydd gwnaed nifer o newidiadau a fydd o fantais i denantiaid. Ni fydd landlordiaid bellach yn gallu cyflwyno hysbysiadau troi allan dialgar, nid yw un person sy'n gadael tenantiaeth ar y cyd bellach yn dod â'r denantiaeth i ben yn awtomatig i bawb arall a chrëwyd hawl olyniaeth newydd i ofalwyr.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nod y Ddeddf hon yw gwella’r cyfraniad y gall unigolion, a'u gofalwyr, ei wneud o ran y gofal a'r cymorth a gânt. Trwy wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth, mewn partneriaeth gyfartal â gweithwyr proffesiynol, y nod yw gwella llesiant.

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Bydd y ffocws ar ddull amlasiantaethol yn helpu i sicrhau bod egwyddorion o ran llais a rheolaeth yn cael eu cyflawni trwy ddylunio a gweithredu gwasanaethau. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfun) a byrddau partneriaeth.

Mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol, a'r awdurdodau lleol yn ardal y bwrdd iechyd lleol hwnnw, sefydlu trefniant partneriaeth i gynnal asesiad poblogaeth o anghenion gofal a chymorth ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr.

Siarter Rhianta Corfforaethol

Addewid i rannu rhianta i ddarparu cartref sefydlog i blant. Yn unol â'r Siarter Rhianta Corfforaethol, bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i chwilio am, a darparu lleoedd sefydlog i fyw sy'n addas ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Prif amcan Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, gyfrifoldeb i wella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern.

Strategaeth Llywodraeth Cymru i Ddileu Digartrefedd 2019

Mae hyn yn nodi'r dull strategol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Yr addewid trosfwaol yw gwneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog, fydd ddim yn cael ei ailadrodd.

Mae'r datganiad polisi yn tynnu sylw at yr angen i symud egni ac adnoddau er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae Llywodraeth Cymru yn glir, ni ellir atal digartrefedd drwy dai yn unig. Mae'r strategaeth yn eirioli awydd i gael amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus - nid y gwasanaethau tai yn unig – yn gweithio ar y cyd i atal a lliniaru digartrefedd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith nod llesiant

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol yng Nghymru, feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Ei nod yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu i sicrhau bod gan genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ansawdd bywyd da. Mae angen i Awdurdodau Lleol feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau.

Mae atal yn ganolbwynt allweddol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae hyn yn efelychu nodau canolog y Grant Cymorth Tai.

Yn lleol, bydd datblygu a chyflawni'r strategaeth hon yn cyfrannu at y polisïau canlynol:

- Strategaeth Rhianta Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028
- Strategaeth Tai, Gofal a Chymorth Pobl Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2022 – 2027
- Cynllun Darparu Grant Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Polisi Gosod Tai Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2020-2025

- Protocol Ailgartrefu Cyflym Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2021 i 2026 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr
- Strategaeth VAWDASV Cwm Taf Morgannwg 2022-2026
- Strategaeth Rhianta Corfforaethol CBSBC a'r angen i wella cydweithio ar draws tai a gwasanaethau cymdeithasol, i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

### 2.3 Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth pedair blynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai. Mae ein gweledigaeth ar gyfer y strategaeth yn sail i weledigaeth gyffredinol Pen-y-bont ar Ogwr i weithredu fel "un cyngor yn cydweithio i wella bywydau".

Ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yw:

***"Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i atal digartrefedd, gan sicrhau, lle nad yw atal yn bosibl, bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog, na fydd yn cael ei ailadrodd. Bydd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael y cymorth sydd ei angen i fyw mor annibynnol â phosibl."***

Ein hegwyddorion yw:

- Gweithio ar y cyd ag asiantaethau a rhanbarthau eraill i atal a lleddfu digartrefedd
- Sicrhau bod gan ein gwasanaethau ddull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddarparu'r cymorth mwyaf effeithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Adeiladu gwytnwch o fewn unigolion, gan eu galluogi i helpu i ddatrys eu problemau eu hunain
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon, gan gydnabod bod tai yn adnodd prin

Ein hamcanion yw:

- Rhoi blaenoriaeth i atal digartrefedd, gan sicrhau ymyrraeth gynnar
- Parhau i wella cydweithio rhwng y swyddogaethau statudol o fewn yr Awdurdod Lleol
- Parhau i wella trefniadau gweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn hwyluso cydweithrediad yn unol ag Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014
- Sicrhau bod opsiynau cymorth a llety yn hygyrch ac ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth

## 3.0 Asesiad Anghenion

### 3.1 Proses Asesu Anghenion

Mae'r broses Asesu Anghenion a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygu'r strategaeth hon wedi cynnwys asesiad cynhwysfawr o ystod o setiau data, sydd wedi llywio Datganiad o Angen.

Mae ein hasesiad anghenion a'n Datganiad o Angen wedi dadansoddi setiau data, gan gynnwys anghenion poblogaeth, rhestrau aros y gofrestr tai cyffredin, ystadegau digartrefedd a chanlyniadau'r Grant Cymorth Tai. Mae dadansoddiad o'r setiau data hyn yn ein helpu i ddeall anghenion y presennol a'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â digartrefedd a thai.

### 3.2 Nodi'r canfyddiadau allweddol o'r Datganiad o Angen

*Y boblogaeth*

- Mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu ac mae cyfradd y cynnydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chynnydd cyffredinol poblogaeth Cymru. Tyfodd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr 4.5% rhwng 2011 a 2021, o'i gymharu â chynnydd cenedlaethol o 1.4% dros yr un cyfnod. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhagweld y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn tyfu o leiaf 3% arall erbyn 2030.

- Mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn heneiddio. Fel yr amlygwyd uchod, roedd cynnydd yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2021, ond gwelwyd gostyngiad canrannol yn y grwpiau oedran iau yn ystod y cyfnod hwn tra bod pob grŵp oedran dros 50 oed wedi gweld cynnydd canrannol. Yn 2021, roedd 21% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn 65 oed neu'n hŷn.

*Ceisiadau digartrefedd*

- Ers ein Strategaeth Digartrefedd 2018-2022, mae ceisiadau digartrefedd i CBSP wedi cynyddu'n sylweddol. Cynyddodd ceisiadau o 1,032 o geisiadau yn 2017/18 i 1,290 yn 2021/22, sy'n gynnydd o 25%.

- Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2020/21 oedd y swm blynyddol uchaf y mae CBSP erioed wedi'i gael, gan gyrraedd uchafbwynt o 1,612.

- Mae nifer cyfartalog y ceisiadau digartrefedd y mae CBSP yn eu derbyn wedi cynyddu o 908 y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2014/15 a 2017/28 i gyfartaledd o 1,363 rhwng 2018/19 a 2021/22. Felly mae ceisiadau i'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol.

- Mae ceisiadau gan aelwydydd person sengl yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r holl geisiadau ac mae'r gyfran hon wedi cynyddu dros y 4 blynedd diwethaf. Yn 2018/19 a 20219/20, roedd ceisiadau gan bob sengl yn cyfrif am 61-64% o'r holl geisiadau, tra yn 2020/21 a 2021/22, cynyddodd y ganran hon i 68-73%.

- Mae'r rhan fwyaf o geisiadau digartrefedd gan bobl sy'n 25 oed neu'n hŷn, tra bod ceisiadau gan bobl ifanc 16 ac 17 oed wedi gostwng. Yn 2021/22, roedd ceisiadau gan unigolion o'r oedrannau hyn yn cyfrif am 3% (34 ymgeisydd) o'r holl geisiadau, ac yn 2018/19, roeddent yn cyfrif am 6% (78 ymgeisydd) o'r holl geisiadau.

*Llety Dros Dro*

- Mae lleoliadau llety dros dro gan y Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol. Rhwng diwedd mis Mawrth 2019 a diwedd mis Ionawr 2023, roedd cynnydd o 251% mewn lleoliadau llety dros dro. Ddiwedd mis Ionawr, roedd 249 o aelwydydd mewn llety dros dro.

- Y cynnydd mwyaf arwyddocaol mewn llety dros dro oedd rhwng 2019/20 a 2020/21 h.y. blwyddyn gyntaf pandemig Covid 19. Yn ystod y cyfnod hwn yn unig, gwelwyd cynnydd canrannol o 101% mewn lleoliadau (83 lleoliad ar ddiwedd 2019/20 i 167 o leoliadau ar ddiwedd 2020/21).

- Er mwyn ateb y galw, gwelwyd cynnydd o 159% yn y stoc llety dros dro rhwng Chwefror 2020 a Gorffennaf 2023. Daeth y rhan fwyaf o'r unedau ychwanegol o'r sector twristiaeth, fel llety gwyliau a llety gwely a brecwast. Ar ôl peidio â chael eu defnyddio'n rheolaidd o gwbl ym mis Chwefror 2020, mae unedau twristiaeth bellach yn cyfrif am 51% o gapasiti llety dros dro y Cyngor.

- Mae cost yr unedau llety ychwanegol yn sylweddol ac wedi cynyddu'n esbonyddol. Cynyddodd cost llety dros dro i'r Cyngor 2196% rhwng 2019/20 a 2021/22. Unwaith eto, gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol mewn costau ym mlwyddyn gyntaf pandemig Covid 19. Yn ystod y cyfnod hwn yn unig, gwelwyd cynnydd canrannol o 1604% mewn costau (£135,000 yn 2019/20 i £2,300,000 yn 2020/21).

- Er bod mwyafrif y lleoliadau llety dros dro yn para llai na 6 mis, mae hyd yr amser a dreulir mewn llety dros dro wedi cynyddu, gyda chynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n treulio 6 - 12 mis mewn lleoliadau.

*Pobl sy’n Cysgu Allan*

- Mae nifer y bobl sy'n cysgu allan, o'i gymharu â nifer y cyflwyniadau digartrefedd yn gymharol isel. Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Rhagfyr 2022, 5 oedd y nifer cyfartalog o bobl a oedd yn cysgu allan a nodwyd ddiwedd pob mis. Dros yr un cyfnod, roedd nifer y bobl a oedd yn cysgu allan yn amrywio o 1 i 13 ar unrhyw un adeg.

*Sector Rhentu Preifat*

- Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae nifer y bobl sy'n rhentu'n breifat ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu o 12.3% o'r boblogaeth yn 2011 i 15.3% yn 2021.

- Mae chwiliad bwrdd gwaith o eiddo rhent preifat sydd ar gael ym mis Gorffennaf 2023 yn awgrymu nad oes unrhyw eiddo ar gael i'w rhentu ar gyfraddau’r Lwfans Tai Lleol neu Gredyd Cynhwysol.

- Mae costau rhentu preifat cyfartalog ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llawer uwch na chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol neu Gredyd Cynhwysol. Mae'r heriau hyn yn arbennig o ddifrifol yn achos cartrefi i deuluoedd mwy, gyda'r rhent cyfartalog ar gyfer eiddo 3 a 4 ystafell wely dros ddwbl y cyfraddau Lwfans Tai Lleol cyfatebol.

*Tai Cymdeithasol a'r Gofrestr Tai Cyffredin*

- Cynyddodd nifer yr aelwydydd ar Gofrestr Tai Cyffredin y Cyngor 212% rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2023. Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 2,629 o aelwydydd ar y Gofrestr Tai Cyffredin.

- Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd ar y Gofrestr Tai Cyffredin (59%) yn aros am eiddo 1 ystafell wely.

- Mae mwy o aelwydydd ar y Gofrestr Tai Cyffredin sydd angen eiddo 4 a 5 ystafell wely, nag sydd o unedau o stoc tai cymdeithasol ar draws y fwrdeistref. Felly, hyd yn oed pe bai pawb mewn eiddo tai cymdeithasol 4 a 5 ystafell wely yn gadael, gan olygu y gellid eu gosod i bobl ar y Gofrestr Tai Cyffredin, ni fyddai digon o eiddo o hyd i ddiwallu'r angen penodol hwn. Yn achos eiddo 5 ystafell wely, mae nifer yr aelwydydd ar y Gofrestr Tai Cyffredin (34 aelwyd) bron i 6 gwaith cymaint â nifer yr unedau tai cymdeithasol 5 ystafell wely (6).

*Grant Cymorth Tai (HSG)*

- Mae nifer yr aelwydydd sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau a ariennir gan HSG yn cynyddu. Rhwng 2018 a 2021/22, roedd cynnydd o 31% yn nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio gwasanaethau. Yn 2021/22 cafodd 2,970 o aelwydydd eu cefnogi gan wasanaethau a ariannwyd gan HSG.

- Ers 2018, yr angen cymorth mwyaf cyffredin gan y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yw'r rhai sydd angen cymorth i atal digartrefedd. Y rhai dros 55 oed ac sydd angen cymorth oedd yr angen cymorth uchaf ond un yn gyson. Mae aelwydydd sydd angen cymorth gydag iechyd meddwl, menywod sy'n profi cam-drin domestig a phobl sengl 25-54 oed hefyd ymhlith anghenion cymorth cyffredin y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau.

- Mae gan fwyafrif yr aelwydydd sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir gan HSG fwy nag un angen cymorth (rhwng 58% a 60%). Mae gan rhwng 34% a 45% fwy na 2 o anghenion cymorth.

- Mae gwasanaethau a ariennir gan HSG yn cefnogi aelwydydd ar draws ystod o ddeiliadaethau gyda'r rhai mewn llety dros dro yn cael eu cefnogi yn fwy nag unrhyw fath arall o ddeiliadaeth.

*Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)*

- Mae gwasanaethau VAWDASV CBSP yn cefnogi mwy o unigolion y bernir eu bod yn 'Risg Uchel', gyda chynnydd o 91% mewn atgyfeiriadau o'r math hwn rhwng 2021 a 2022, yn unig.

*Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr*

- Ers 2018/19, mae 19.1% o ymadawyr gofal wedi cyflwyno cais digartrefedd (55 o unigolion). O'r 55 unigolyn hyn, mae 56.4% wedi mynd ymlaen i wneud mwy nag un cais digartrefedd.

- Ar gyfartaledd, roedd ceisiadau digartrefedd gan ymadawyr gofal yn cyfrif am 2.5% o'r holl geisiadau digartrefedd rhwng 2020 a 2022 a 11.3% o geisiadau gan bob person 18-24 oed a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros yr un cyfnod.

- Yr oedran cyfartalog, ar yr adeg y mae ymadawyr gofal yn cyflwyno eu cais cyntaf, oedd 19 oed a 7 mis. Mae hyn yn awgrymu nad yw unigolion yn ddigartref yn syth ar ôl gadael gofal, ond, ar gyfartaledd, o fewn y ddwy flynedd gyntaf o wneud hynny.

Personél y Lluoedd Arfog

- Ers 2020, derbyniwyd 8 cais digartrefedd o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgeisydd adael y Lluoedd Arfog ac nad oedd ganddo lety addas arall i breswylio ynddo.
- Dywedodd 18 ymgeisydd fod ganddynt angen cymorth ychwanegol o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog
- Yn fwy cyffredinol, ers 2020, dywedodd 260 o ymgeiswyr a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref eu bod wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn y gorffennol.

## 3.3 Casgliad

- **Mae'r galw am wasanaethau digartrefedd a chymorth tai wedi cynyddu'n ddramatig**

Mae'r holl ddadansoddiad data, gan gynnwys adolygiad o wasanaethau digartrefedd, y gofrestr tai cyffredin a gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, yn dangos bod y galw am wasanaethau digartrefedd a chymorth tai yn cynyddu. Er bod poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu ac ar gyfradd gyflymach na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae lefel y cynnydd yn y pwysau ar wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai yn esbonyddol.

Er ein bod wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau o gwmpas amser pandemig Covid, mae'n amlwg bod y pwysau ar wasanaethau yn cynyddu am resymau ehangach na’r pandemig yn unig.

Roedd y pwysau’n cynyddu cyn y pandemig ac er bod rhai mesurau'n awgrymu y cyrhaeddwyd uchafbwynt yn ystod 2020/21, mae galw mawr am wasanaethau o hyd, gyda’r galw’n llawer uwch nag yr oedd ar adeg cyhoeddi ein strategaeth ddigartrefedd ddiwethaf.

Daw pwysau sylweddol o ran galw am wasanaethau gan bobl sengl sy'n ffurfio cyfran gynyddol o'r holl gyflwyniadau digartrefedd a'r galw ar y gofrestr tai cyffredin.

- **Mae adnoddau llety dros dro dan bwysau penodol**

Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â gofynion mewn perthynas â llety dros dro yn amlwg. Mae cynnydd o 251% mewn lleoliadau, cynnydd o 101% yn yr unedau sydd ar gael a chynnydd o 2196% mewn costau i gyd yn cyfeirio at faes gwasanaeth sydd o dan bwysau difrifol.

Gellir priodoli'r cynnydd eithafol mewn costau i raddau helaeth i ddibyniaeth newydd ar unedau llety twristiaeth, sydd bellach yn cyfrif am 51% o'r holl stoc llety dros dro, o gofio nad oedd defnydd wedi cael ei wneud ohonynt yn arferol i’r diben hwn o'r blaen.

Mae'n ymddangos bod y cynnydd dramatig yn y galw am lety dros dro yn 2020/21 yn ganlyniad uniongyrchol i'r dull 'Pawb i Mewn' gan Lywodraeth Cymru. Gyda newidiadau dros dro i ddeddfwriaeth bellach yn cael eu prif ffrydio i ddeddfwriaeth sylfaenol, nid yw'n debygol y bydd y gofynion hyn yn lleihau.

- **Mae anghenion cymorth unigolion sy'n cael mynediad i wasanaethau yn sylweddol**

Mae lefel y galw am wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gan awgrymu bod yr angen am gymorth i atal digartrefedd a byw'n annibynnol hefyd yn cynyddu.

Er y bydd gwelliannau i brosesau porth a darpariaeth gynyddol yn chwarae rhan o safbwynt y niferoedd cynyddol sy'n cael eu cefnogi, mae lefel yr anghenion cymorth hefyd yn sylweddol. Mae gan y mwyafrif o aelwydydd fwy nag un angen cymorth, tra bod gan hyd at 45% o unigolion a gefnogir o leiaf 2 o anghenion cymorth.

Mae cartrefi yn cyflwyno gydag anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai, ar draws pob deiliadaeth o lety.

- **Nifer cyfyngedig o unedau llety fforddiadwy sydd ar gael**

Mae dadansoddiad yn dangos mai ychydig iawn o lety sydd ar gael yn y sectorau rhent preifat a chymdeithasol, gyda chostau rhent preifat ar gyfartaledd yn cynyddu ymhell uwchlaw cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ac nid oes stoc o dai cymdeithasol ar gael i ateb y galw cynyddol ar y Gofrestr Tai Cyffredin.

Mae'n debygol bod diffyg llety fforddiadwy ynddo'i hun wedi cael effaith ar y galw am wasanaethau digartrefedd a chymorth tai gan fod aelwydydd yn ei chael hi'n anoddach datrys eu sefyllfaoedd eu hunain, cyn troi at y Cyngor am gymorth. Yn yr un modd, mae'n anoddach i'r rhai mewn lleoliadau llety dros dro symud ymlaen.

## 4.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar yr Adolygiad Digartrefedd

### 4.1 Y Broses Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Roedd ystod eang o randdeiliaid, sy'n gweithredu ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan allweddol o'r broses Adolygu Digartrefedd a datblygu Strategaeth Ddigartrefedd y Cyngor 2022-2026.

Cynhaliwyd ystod eang o gyfweliadau gydag unigolion a grwpiau lled-strwythuredig sef; y Timau Datrysiadau Tai, Ailgartrefu a Chomisiynu rheng flaen (sy'n cynnwys staff sy'n cyflawni prif swyddogaethau'r Adran Tai), gyda rheolwyr haen ganol gyda goruchwyliaeth weithredol a chyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau a goruchwyliaeth a chyfrifoldeb dros adolygu gwasanaethau, craffu, datblygu a chomisiynu.  Hefyd gydag uwch reolwyr sydd â'r cylch gorchwyl strategol ar gyfer yr holl swyddogaethau a dyletswyddau tai ar draws yr Awdurdod a hefyd gydag Aelod Etholedig lleol, sydd hefyd yn Aelod Cabinet.

Ategwyd y cyfweliadau hyn gyda chyfweliadau lled-strwythuredig wyneb yn wyneb a dros y ffôn gydag ystod ehangach o bartneriaid gweithredol a strategol o Gyfarwyddiaethau eraill o fewn CBSP, yn ogystal ag ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Unwaith eto, mae'r sawl a gyfwelwyd wedi amrywio o staff cymorth rheng flaen, i reolwyr prosiect a'r rhai sydd â chyfrifoldeb strategol allweddol a goruchwyliaeth ar gyfer dylunio, darparu, gweithredu a gwerthuso gwasanaethau.

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi defnyddio gwasanaethau tai rheng flaen CBSP a oedd yn rhoi

adborth uniongyrchol ac arfarniad o swyddogaethau, effeithiolrwydd ac effaith yr Adran Tai, o safbwynt y cwsmer.

Yn olaf, casglwyd adborth eang hefyd trwy ddefnyddio adnodd ar-lein Survey Monkey, lle gofynnwyd cwestiynau i randdeiliaid sy'n gweithredu ar lefel strategol a gweithredol mewn sefydliadau a dynnwyd o bob rhan o'r sectorau statudol a gwirfoddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Trwy o leiaf un o'r dulliau uchod, ymgysylltwyd â'r sefydliadau canlynol:

- Tîm Datrysiadau Tai a Strategaeth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Uwch Reolwyr a'r Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac aelodau o grŵp cynllunio MAPPA Pen-y-bont ar Ogwr
- Heddlu De Cymru
- Cymdeithas Tai V2C
- Cymdeithas Tai Linc Cymru
- Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin
- Cymdeithas Tai Hafod
- Gwasanaethau Cymdeithasol (Timau Gwasanaethau Oedolion a Phlant) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Tîm Atal a Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Tîm Addysg a Chymorth i Deuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Aelodau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr
- Partneriaeth VAWDASV Pen-y-bont ar Ogwr ac aelodau o MARAC Pen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg
- Unigolion sydd â phrofiad byw
- Y chwe darparwr gwasanaeth a gomisiynwyd gan CBSP drwy'r rhaglen ariannu Grant Cymorth Tai
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Ar Bopeth Pen-y-bont ar Ogwr

## 4.2 Adborth Rhanddeiliaid

Mae'r adborth a gasglwyd gan y rhanddeiliaid a restrir uchod wedi bod yn amhrisiadwy wrth ychwanegu naratif at yr Asesiad Anghenion ac, yn y pen draw, ar gyfer datblygu'r Blaenoriaethau Strategol a nodir yn y strategaeth hon. Mae negeseuon allweddol o'r adborth a ddarperir yn cael eu nodi isod:

**Gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth:**

- Gofynnwyd am fwy o hosteli gyda staff sy'n darparu cymorth, a nodwyd problem gyda'r cyflenwad o lety addas (dros dro a pharhaol) fel thema gyson.

- Roedd y rhai sy'n gadael y carchar am weld gwell cysylltiadau rhwng carchardai a swyddogion tai, wrth i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth baentio darlun anghyson rhwng asiantaethau allweddol sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n cael eu gwneud yn ddigartref neu sy'n wynebu digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Roedd

profiadau cyson o gynllunio o ran mynd i'r afael ag anghenion tai yn cael eu gadael tan y diwrnod y cawsant eu rhyddhau.

- Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau yn teimlo y gallai cyfathrebu rhyngddynt a'r Adran Dai fod yn well ac y dylid blaenoriaethu'r rhai a oedd wedi aros hiraf ar gyfer tai.

- Roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo y gallai'r broses 'digartref i dai' fod yn gyflymach, er nad oedd yr un ohonynt yn benodol am sut y dylai amserlen fyrrach edrych. Yn yr un modd, roedd amserlenni yn amrywio i unigolion a gyfwelwyd, o ychydig wythnosau yn y broses ymgeisio i nifer o fisoedd mewn achosion eraill. Roedd mwyafrif y bobl a gyfwelwyd yn deall yr effaith a gafodd Covid ar hyn.

**Gan weithwyr proffesiynol ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol:**

- Dangosodd staff yr Adran Tai gymhelliant ac ymrwymiad clir i'w swyddi, ond mae trosiant staff, materion recriwtio a'r defnydd dilynol o staff asiantaeth wedi ychwanegu pwysau sylweddol yn ystod cyfnod o bwysau digynsail ar wasanaethau (yn ystod pandemig Covid).

- Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod y pwysau a roddwyd ar yr Adran Dai drwy gydol y pandemig, ond roeddent am i gynghorwyr Datrysiadau Tai feddu ar wybodaeth a sgiliau ehangach ar gyfer gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion amrywiol, cymhleth ac effaith trawma.

- Roedd staff tai a rhanddeiliaid allanol eisiau sefydlu llwybrau a oedd yn cefnogi cynllunio ac ymyrraeth gynharach a oedd yn atal digartrefedd ac yn osgoi gorfod rheoli achosion o argyfwng. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn achos pobl ifanc oedd yn gadael gofal a'r rhai sy'n gadael yr ystâd ddiogel.

- Roedd y system ymgeisio Jigsaw ar-lein newydd wedi bod yn amhrisiadwy wrth reoli'r galw drwy gydol y pandemig pan oedd staff tai yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, disgrifiodd defnyddwyr gwasanaeth, ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol anawsterau wrth ddefnyddio'r system. Roedd angen gwelliannau hefyd i sicrhau y gallai cynghorwyr Datrysiadau Tai storio ac adfer gwybodaeth yn rhwyddach.

- Cydnabu rhanddeiliaid fod rhai pobl angen dulliau mwy traddodiadol o ymgysylltu, fel gwaith wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, yn yr un modd, mae'r pandemig wedi dangos bod yn well gan lawer o bobl ddulliau cymorth o-bell a hyblyg, fel galwad fideo, negeseuon testun ac e-bost.

- Disgrifiodd rhanddeiliaid yr anawsterau a brofodd rhai defnyddwyr gwasanaeth gyda'r broses ymgeisio ac asesu yn cael ei chynnal ar-lein a thros y ffôn a gofynnwyd am well cydbwysedd gan gynghorwyr Datrysiadau Tai o ran cynnig asesiadau wyneb yn wyneb.

- Cydnabuwyd bod angen datblygu gwell dealltwriaeth ar draws Cyfarwyddiaethau o fewn yr awdurdod o flaenoriaethau, pwysau a chyfyngiadau ei gilydd. Gallai hyn baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu llwybrau gwell, arferion gwaith ar y cyd a sefydlu disgwyliadau clir o rolau ei gilydd.

- Gan staff ar draws CBSP, roedd cydnabyddiaeth bod cyfle sylweddol ar gyfer mwy o gydweithio ar lefel strategol a datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd, gan ddefnyddio adnoddau ar y cyd a dadansoddi anghenion i lywio cynllunio a datblygu gwasanaethau yn well.

- Roedd ystod o randdeiliaid yn teimlo y gellid gwneud mwy o fewn Gwasanaethau Addysg CBSBC a chyda'r cwricwlwm ysgol craidd i ddatblygu sgiliau bywyd ehangach plant sy'n cyfrannu at atal sylfaenol a chyfarparu a pharatoi plant i nodi a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thai a all arwain at ddigartrefedd.

- Roedd nifer o randdeiliaid â phethau da i'w dweud ynghylch faint o lety â chymorth sydd ar gael yn y Fwrdeistref ac amrywiaeth y llety hwnnw, ond roedd llawer yn teimlo bod angen mwy i sicrhau bod opsiynau ar gael fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu gosod mewn llety addas. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn achos pobl ifanc sy'n gadael gofal, y rhai ag anghenion iechyd meddwl, anghenion mwy cymhleth, ac i bobl yr oedd eu hanghenion o natur fwy parhaus, tymor hwy ac i'r rhai oedd angen cefnogaeth ar ôl gadael llety a chymorth 'gwlyb'.

- Gwnaeth llawer o randdeiliaid sylwadau ar ddiffyg darpariaeth ddigonol ar gyfer iechyd meddwl, a hynny o safbwynt y ddarpariaeth o lety â chymorth ac mewn perthynas â mynediad at, a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl statudol.

- Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos bod unigolion ac aelwydydd sy'n cael mynediad at wasanaethau digartrefedd yn cyflwyno gydag anghenion cymorth cynyddol sydd, yn aml, ac iddynt sawl agwedd. Ar y cyd â hyn, mae heriau'n datblygu ar draws y sector darparwyr o ran ymateb i'r galw gan, ac anghenion y rhai sydd â phroblemau defnyddio sylweddau sy'n cyflwyno gyda phroblemau rheoli ymddygiad sy'n peri risg. Mae darparu mwy o fodelau o lety dwys a hirdymor â chymorth, er enghraifft 'tŷ gwlyb' neu wasanaeth tai yn gyntaf o fath statig, yn enghreifftiau o sut y gellid bodloni'r angen hwn.

- Dywedodd darparwyr ac asiantaethau'r Trydydd Sector sy'n gweithredu yn y maes gwarchod y cyhoedd a diogelu fod cydweithio â'r Adran Dai yn dda iawn. Fodd bynnag, nodwyd yn gyson gan staff yr Adran Tai yr angen i'r gwasanaethau Prawf ac iechyd meddwl, fel enghreifftiau penodol, rannu gwybodaeth yn well a mabwysiadu gweithdrefnau rheoli risg.

- Disgrifiwyd fel rhai 'safon aur' y cyfarfodydd o'r Cell Digartref a'r dull amlasiantaethol a fabwysiadwyd rhwng y gwasanaeth allgymorth pendant, Tîm Allgymorth Anghenion Cymhleth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n gysylltiedig â'r ystod o wasanaethau llety 'brics a morter' ar gyfer diwallu anghenion pobl sy'n cysgu allan.

- Nodwyd bod y pwysau ar lety dros dro yn her sylweddol, o ran cost, argaeledd ac addasrwydd i anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Dylid adolygu’r ddarpariaeth a’r defnydd o lety dros dro, yn unol â’r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

- Cydnabuwyd y symudiad tuag at Ailgartrefu Cyflym oherwydd y pandemig am ei effeithiolrwydd o ran ysgogi dull cydgysylltiedig o symud pobl ymlaen o lety dros dro. Fodd bynnag, gofynnwyd am gydbwysedd i sicrhau bod pobl hefyd yn cael eu symud ymlaen o lety â chymorth, gyda phryderon yn cael eu codi y gall y cyfnod amser y mae unigolyn yn ei dreulio yn y llety fod yn niweidiol i'w lles yn y tymor hwy.

- Roedd LCC yn awyddus i sefydlu cytundebau dwyochrog er mwyn ffurfioli’r ffordd hyblyg y maent yn gweithio gyda'i gilydd. Cydnabuwyd yr angen i adolygu'r Polisi Gosod Tai Cymdeithasol yng ngoleuni'r symudiad parhaol i Ailgartrefu Cyflym, y Gofrestr Tai Cyffredin, ac wrth ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth Tai yn Gyntaf.

- Roedd yr holl randdeiliaid yn cydnabod mai nifer cyfyngedig o lety fforddiadwy ac addas sydd ar gael ar draws pob sector. Roedd consensws eang bod cael mwy o stoc fforddiadwy ar draws y sectorau tai cymdeithasol a phreifat yn hanfodol i atal a lleddfu digartrefedd.

- Roedd pryder difrifol ynghylch nifer yr unedau gweigion o fewn ac ymhlith partneriaid LCC, yn enwedig tra bod nifer mor sylweddol o bobl yn cael eu lletya mewn llety dros dro gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd.

- Mae cyfleoedd i ddefnyddio nifer o ffrydiau ariannu (Grant Cymorth Tai a Grant Tai Cymdeithasol), i ymateb i'r heriau hyn ac i ddatblygu modelau cymorth amrywiol. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn Grant Tai Cymdeithasol, parhaodd natur amlochrog rhaglenni adeiladu cyfalaf i gyflwyno heriau wrth adeiladu cartrefi newydd. Ar ben hynny, mae angen ymatebion arloesol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r angen i gynyddu'r cyflenwad o eiddo sector preifat sydd ar gael i'r Awdurdod.

- Mae darparwyr cymorth yn gwerthfawrogi’r Fforwm Darparwyr ac yn gofyn i ni ystyried ei hailsefydlu, wrth i'r symudiad tuag at y 'normal newydd' barhau yn dilyn pandemig Covid 19.

- Mae cyfarfodydd y Cell Digartref a'r Panel Ailgartrefu Cyflym a ddatblygwyd fel rhan o ymateb digartrefedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr i'r panel Covid 19 yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ond roedd galwadau am adolygu'r olaf yng ngoleuni'r newid parhaol tuag at Ailgartrefu Cyflym.

- Dylai sefydliadau partner sicrhau bod camau'n cael eu cymryd o fewn eu sefydliadau eu hunain i gefnogi'r agenda digartrefedd, gan gydnabod bod digartrefedd yn fater trawsbynciol ac na ellir mynd i'r afael ag ef gan un sefydliad yn unig.

- Mae angen i wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai barhau i gael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn parhau, bod cyfleoedd i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, a datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd, ac sydd ddim yn gweithio wrth atal a lleddfu digartrefedd.

- Dylid adolygu rolau, strwythur, prosesau, a hyfforddiant a chymorth yn yr Adran Tai i sicrhau bod adnoddau, llwybrau, cyfathrebu a chymorth llesiant cyson i'r holl staff yn hyrwyddo darparu gwasanaethau mwy effeithiol a gwerthfawr.

- Roedd cydnabyddiaeth eang nad oedd digon o gyfleoedd a mecanweithiau ar waith i gynnwys pobl â phrofiad byw wrth ddylunio a gwerthuso gwasanaethau.

- Mae cyfle i'r Adran Dai ddatblygu ac ymgorffori diwylliant a gwasanaeth sy'n fwy seicolegol ystyriol trwy fabwysiadu'r fframwaith Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma ac Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflyrau Seicolegol (PIE 2.0) wrth gomisiynu, darparu gwasanaethau a monitro.

- Thema gyffredin gan randdeiliaid oedd yr angen i ddarparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd o ran achosion, canlyniadau a chyfleoedd i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd.

**Ymgynghoriad cyhoeddus**

Wedi i'r Cabinet gymeradwyo strategaeth ddrafft ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, rhwng 20 Gorffennaf 2023 a 12 Hydref 2023. Derbyniwyd 33 o ymatebion, yn ogystal â sylwadau gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y Cyngor.

Yn ogystal, cyflwynwyd y strategaeth ddrafft i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 25 Medi 2023 ar gyfer eu hystyriaeth a'u sylwadau. Yn unol ag argymhelliad gan y Pwyllgor, ymgysylltwyd hefyd â Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae pob un o'r sylwadau a'r argymhellion uchod wedi cael eu hystyried fel rhan o gwblhau'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai derfynol hon.

## 5.0 Blaenoriaethau Strategol

Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu'r blaenoriaethau strategol canlynol, sydd wedi'u gosod gyda'r uchelgais o gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai. Datblygwyd y blaenoriaethau strategol hyn yn dilyn datblygu ein Datganiad o Angen ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a lleol.

| Blaenoriaeth Strategol | Rhesymeg | Amcanion |
|---|---|---|
| **1. Cynyddu'r cyflenwad o lety addas i ddiwallu anghenion tai ymgeiswyr** | Y prinder llwyr o dai addas yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Awdurdod Lleol, gyda'r galw yn sylweddol fwy na'r cyflenwad. | • Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol addas sydd ar gael i ddiwallu angen lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae ceisiadau digartrefedd a'r pwysau ar y Gofrestr Tai Cyffredin wedi cynyddu'n gyson dros gyfnod o amser.<br><br>Nid yw'r cyflenwad presennol o dai cymdeithasol trwy bartneriaid RSL yn ddigonol i gwrdd â gofynion.<br><br>Ychydig o lety fforddiadwy sydd ar gael yn y sector rhentu, gyda rhenti'r farchnad yn llawer uwch na chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol. | • Cynyddu argaeledd eiddo addas yn y sector rhentu preifat.<br><br>• Hyrwyddo ac annog prydlesu neu rentu eiddo sector preifat ac ymgysylltiad parhaus â landlordiaid y Sector Rhentu Preifat.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid LCC i sicrhau'r defnydd gorau o'r stoc bresennol i ddiwallu angen lleol. |
| **2. Gweithredu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** | Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu a gweithredu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.<br><br>Bwriad model Ailgartrefu Cyflym yw cefnogi atal a lliniaru effaith digartrefedd ar aelwydydd. Bydd darpariaeth lwyddiannus yn allweddol i reoli effaith y pwysau cynyddol ar wasanaethau digartrefedd. | • Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i weithredu'r gwahanol elfennau fel y nodir yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.<br><br>• Atal digartrefedd a'r angen am lety dros dro.<br><br>• Lleihau'r angen am lety dros dro a lle bo angen, lleihau'r amser y mae aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro<br><br>• Datblygu model yn seiliedig ar ddata cadarn, gyda thystiolaeth glir o angen. |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Darparu gwasanaeth hygyrch, hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion, drwy weithlu medrus sy'n cael ei werthfawrogi** | Mae angen gwneud gwelliannau parhaus i hygyrchedd gwasanaethau, gan sicrhau dull hyblyg o ymdrin ag angen a nodwyd.<br><br>Mae cyfle i swyddogaethau presennol y Porth chwarae mwy o ran wrth sefydlu llwybrau gwell, monitro cyfraddau prosesu a pherfformiad.<br><br>Dylai pobl sydd â phrofiad byw gael rôl ystyrlon ac effeithiol wrth ddatblygu a monitro gwasanaethau.<br><br>Gallai gwell cyfathrebu a hyrwyddo gwasanaethau atal digartrefedd hyrwyddo ymgysylltiad yn gynharach.<br><br>Mae cydnabyddiaeth bod gofynion cynyddol a chymhlethdod y gwaith yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gweithlu a bod angen datrys hyn. | • Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb ac yn ymateb i'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol<br><br>• Ymestyn a gwella swyddogaeth ac effaith y Porth.<br><br>• Gwella ymgysylltiad parhaus â'r rhai sydd â phrofiad byw.<br><br>• Darparu gwybodaeth glir am brosesau a llwybrau a chodi proffil y gwasanaethau cyngor a chymorth digartrefedd presennol, er mwyn annog unigolion mewn angen tai i fanteisio arnynt.<br><br>• Sicrhau digon o gapasiti o fewn y gweithlu i ymateb i'r galw a gyflwynir.<br><br>• Darparu gwasanaethau drwy weithlu gwydn a medrus, sy'n cynnig darpariaeth o ansawdd uchel ac yn hyrwyddo lles staff. |
| **4. Gwella cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ar lefel strategol i wella atal digartrefedd** | Nid mater tai yn unig yw digartrefedd. Mae gan gydweithio a phartneriaethau â rhanddeiliaid ehangach rôl allweddol i atal digartrefedd yn llwyddiannus.<br><br>Gall gwell dealltwriaeth o bwysau, blaenoriaethau a chyfyngiadau ehangach arwain at gydweithio'n | • Sicrhau perchnogaeth ehangach o ddigartrefedd ymysg rhanddeiliaid er mwyn cefnogi gwaith atal rhagofalol.<br><br>• Mwy o rannu data i nodi bylchau, gyda'r potensial i gomisiynu mwy o wasanaethau ar y cyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | agosach a gwell canlyniadau i unigolion.<br><br>Gall diwylliant o berchnogaeth ar y cyd wella cynllunio a chomisiynu, yn ogystal â chefnogi rheoli risg.<br><br>Gall gwell cydweithrediad wella blaenoriaethau corfforaethol, megis gweithredu'r fframwaith llety a chymorth cenedlaethol i ymadawyr gofal. | • Sefydlu diwylliant sefydliadol o ymholi lle mae dadansoddi a dehongli data'n llywio'n effeithiol y ddarpariaeth o wasanaethau.<br><br>• Rheoli risg drwy randdeiliaid yn dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion a chanlyniadau ar y cyd.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cyffredin.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu'r fframwaith llety a chymorth cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.<br><br>• Archwilio amrywiaeth o ddewisiadau tai o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, sy'n hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a llesiant estynedig.<br><br>• Gwella cydweithio ar draws tai a gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio cyfrifoldebau rhianta corfforaethol i ddeall ymhellach y rhesymau pam mae ymadawyr gofal yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddigartref a pha gamau y gellir eu cymryd i atal cyflwyniadau o'r fath. |
| **5. Gwella a chynyddu'r gwasanaethau i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth** | Mae anghenion cymorth y rhai sy'n cyflwyno'n ddigartref yn sylweddol. Yn aml, ni all tai ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n atal rhywun rhag sicrhau neu gynnal llety.<br><br>Mae carfan o unigolion sydd angen modelau cymorth dwys. Mae'r achosion hyn yn aml yn ddwys o ran adnoddau i ystod o wasanaethau cyhoeddus | • Datblygu gwasanaethau sy'n gallu cefnogi pobl ag anghenion cymhleth iawn a rhai sydd o bosib yn barhaus.<br><br>• Cymryd ymagwedd amlasiantaethol tuag at gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol i atal digartrefedd i'r rhai ag anghenion cymhleth a chyflyrau gydol oes, megis anawsterau dysgu, iechyd meddwl neu gyflyrau niwroamrywiol. |
| **6. Cymryd agwedd bendant, gydweithredol ac amlddisgyblaethol i gefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd** | Cysgu ar y stryd yw'r ffurf fwyaf problemus a llym o ddigartrefedd. Mae'r bregusrwydd a'r risg a achosir i bobl sy'n cysgu allan yn aml yn sylweddol.<br><br>Mae'r rhesymau pam mae pobl yn cysgu allan yn aml yn gymhleth ac wedi'u gwreiddio'n ddwfn. O'r herwydd, gall lleddfu digartrefedd ymysg pobl sy'n cysgu allan fod yn heriol ac mae angen adnoddau ac ymgysylltiad amlasiantaethol. | • Cadw nifer y bobl sy'n cysgu allan yn isel a sicrhau lle mae cysgu allan yn digwydd, ei fod yn rhywbeth prin, yn fyrhoedlog ac na fydd yn digwydd eto.<br><br>• Darparu allgymorth pendant i gynorthwyo i adnabod yn gywir a chefnogi pobl sy'n cysgu allan. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Sicrhau dull amlasiantaethol o gefnogi pobl sy'n cysgu allan. |

## 6.0 Asesiadau Effaith

### 6.1 Y Broses Asesu Effaith

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yn ystod y 'cyfnod sgrinio'.

### 6.2 Canfyddiadau Allweddol

Mae'r nodweddion gwarchodedig a nodwyd o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r effaith ar y defnydd o'r Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, rhaid i'r Cyngor ystyried effaith penderfyniadau strategol, megis datblygu neu adolygu polisïau, strategaethau, gwasanaethau a swyddogaethau. Ystyrir na fydd unrhyw effeithiau sylweddol nac annerbyniol ar gydraddoldeb o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7.0 Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

### 7.1 Gweithio gyda Phartneriaid

Ni all yr Awdurdod Lleol weithredu'r blaenoriaethau yn y Strategaeth hon yn effeithiol ar ei ben ei hun. Mae cydweithio â phartneriaid allweddol fel iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth a sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau bosib.

Byddwn yn gweithio ar y cyd i weithredu ein strategaeth drwy:

- Sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu a gwella dulliau o gydweithio ar draws Cyfarwyddiaethau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac i sicrhau bod y dull hwn yn cyd-fynd â dulliau tebyg o gydweithio a chydweithredu â rhanddeiliaid y tu allan i'r Awdurdod.

- Gwneud y defnydd gorau o'r perthnasoedd strategol a gweithredol presennol ar draws gwasanaethau a sectorau ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u sefydlu'n gadarn, sy'n hirsefydlog, yn greadigol ac yn arloesol o ran natur ac ymatebolrwydd i angen. Mae synergedd clir o ran sut mae gwasanaethau'n cysylltu ar draws y sector ac yn plethu i gynorthwyo'r Awdurdod i gwrdd â mentrau strategol ehangach.

- Sicrhau bod yr Awdurdod ar lefel weithredol yn adeiladu ar dystiolaeth glir staff yr Adran Tai ac yn gwneud defnydd cyson a da o arbenigedd a phrofiad rhanddeiliaid a darparwyr eraill a ddygir i mewn i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

- Parhau i weithio'n amlasiantaethol ac yn bartneriaethol ar lefel weithredol – mae tystiolaeth bod hyn yn un o gryfderau clir yr Adran Tai. Mae'r dull a'r arfer hwn yn darparu templed i'r Awdurdod gyflawni'r Strategaeth Digartrefedd a sicrhau ei bod yn

cael yr effaith orau bosibl a hynny drwy fodel o gydweithio â gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol, Prawf ac Iechyd Meddwl.

- Sicrhau bod y berthynas waith ag Iechyd yn parhau, fel y gwelir yn natblygiad y Tîm Allgymorth Anghenion Cymhleth Rhanbarthol. Cyfrannu at waith pellach gyda'r Gwasanaethau Iechyd sydd â ffocws ehangach ar faterion anfeddygol/clinigol. Gallai rhannu cyllidebau a chomisiynu ar y cyd hyrwyddo meddwl mwy cydgysylltiedig i fynd i'r afael â materion iechyd a chymorth cymunedol sy'n gorgyffwrdd.
- Ystyried datblygu perthnasoedd a gweithio amlasiantaethol rhwng yr Adran Dai a phartneriaid eraill drwy gydleoli gwasanaethau neu arbenigedd mewn canolfan ganolog.
- Sefydlu fforymau pwrpasol a phriodol, drwy ystyried pwrpas, aelodaeth ac amlder pob cyfarfod cyfredol, yn y gorffennol a'r dyfodol i sicrhau bod rhanddeiliaid priodol yn cymryd rhan yn y fforymau/cyfarfodydd sydd fwyaf perthnasol i'w rolau a'u swyddogaethau.

## 7.2 Ffynonellau ariannu

Bydd ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau o fewn y strategaeth hon yn cael eu hariannu o ddyraniadau grant gan Lywodraeth Cymru (LlC), yn ogystal â ffynonellau cyllid mewnol craidd lle bo hynny'n briodol.

Y Grant Cymorth Tai (HSG) fydd y brif ffrwd ariannu a ddefnyddir i gyflawni ein blaenoriaethau fel y nodir yn y strategaeth.

Mae dyraniad y Grant Cymorth Tai ar gyfer Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:

2022-23 - £7,833,509.33

2023-24 - £7,833,509.33

2024-25 - £7,833,509.33

Mae grantiau eraill sy'n berthnasol yn cynnwys y Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Gadael Neb Allan. Ein huchelgais yw gweithio ar y cyd â'n partneriaid megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl ffynonellau cyllid sydd ar gael ar y cyd i sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar y cyd. Er mwyn cwrdd â'r cynnydd sylweddol mewn costau llety dros dro, nodwyd y bu angen cyllid craidd CBSP yn y gorffennol ac y bydd ei angen yn y dyfodol i gwrdd â gofynion parhaus.

## 7.3 Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso

Bydd ein blaenoriaethau strategol yn cael eu cyfleu i bartneriaid er mwyn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mabwysiadir dull profi ansoddol a meintiol o fonitro, adolygu a gwerthuso cyflawniad y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.

Bydd hyn ar ffurf proses asesu ac adolygu goleuadau traffig RAG sy'n gysylltiedig â:

1. CBSP yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid drwy ddiweddariad ac adolygiad blynyddol gan ddefnyddio asesiad naratif o berfformiad yn erbyn blaenoriaethau ac amcanion.

2. Ystyried ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth drwy broses adolygu flynyddol, naill ai drwy brosesau cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth presennol a ddefnyddir gan bartneriaid a rhanddeiliaid, neu drwy ddefnyddio holiadur dienw ar-lein fel Survey Monkey.
3. Nodi Dangosyddion Perfformiad, gweithredoedd ac allbynnau diriaethol fel y manylir yn y strategaeth a/neu ei gynllun gweithredu a chynnal asesiad meintiol ar gerrig milltir allweddol.

Gellid datblygu hyn yn adolygiad ac adroddiad blynyddol mwy cynhwysfawr, y gellid eto ei rannu gyda rhanddeiliaid, trwy’r strwythurau presennol ar gyfer cyfarfodydd strategol.